# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(88)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys 1**
Dechreuodd yr eitem am 14:19

**Gwyn Price (Islwyn)**
A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr asbestos a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

**Cwestiwn Brys 2**
Dechreuodd yr eitem am 14:27

**Mick Antoniw (Pontypriidd)**
A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru yn dilyn y cyhoeddiad y bore yma gan Lywodraeth y DU, yn cadarnhau ei bwriad i ddirwyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ben heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: y cynnydd wrth weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i gau ffatrïoedd Remploy (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Y Diweddaraf ar Twf Swyddi Cymru (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Diogelwch Cymunedol a Chynnydd ar Bennod 7 y Rhaglen Lywodraethu (30 munud)**

**6. Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (60 munud)**

**NDM5063 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol  Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

Gosodwyd Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 28 Mai 2012.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 4 Hydref 2012.

**Dogfennau Ategol**
Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Memorandwm Esboniodol
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Adroddiad
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7. Dadl ar yr Adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau (60 munud)**

**NDM5064 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r adroddiad am y Dinas-ranbarthau.

**Dogfen Ategol**
Mae'r adroddiad am y Dinas-ranbarthau ar gael drwy'r ddolen hon:

http://wales.gov.uk/docs/det/publications/12076cityregionsrpten.pdf (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu at dwf economaidd yn y modd mwyaf effeithiol os bydd cysylltedd digidol a thrafnidiaeth yn gwella ar draws y rhanbarth.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o drosolwg democrataidd mewn penderfyniadau a wneir ar lefel y ddinas-ranbarth.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder nad yw'r adroddiad yn rhoi digon o sylw i'r rôl y gall canolfannau diwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru ei chwarae i arwain y twf economaidd yng ngogledd Cymru.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd llwyddiant dinas-ranbarthau yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob haen o lywodraeth; ynghyd â'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod na ddylai'r gwaith o weithredu dinas-ranbarthau amharu ar adfywio yng ngweddill ardaloedd Cymru.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn ynghylch y ffordd orau i'r ardaloedd menter perthnasol gefnogi dinas-ranbarth De-Ddwyrain Cymru.

**Voting Time**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 17 Hydref 2012